Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Llanbedrgoch

**Llanbedrgoch**
**Ynys Môn**
**LL76 8SX**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Llanbedrgoch

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Llanbedrgoch |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 17 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 15 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | * |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 12.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 33.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 46.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2023 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 08/01/2018 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 05/11/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar lle roddir pwyslais cadarn ar wella lles disgyblion. Mae gan y staff a'r disgyblion berthynas weithiol dda ac mae'r ymdeimlad o barch sy'n bodoli rhyngddynt yn nodwedd arbennig o'r ysgol. Mae'r disgyblion yn teimlo'n hyderus bod y staff yn barod i wrando ar eu syniadau ac ar unrhyw bryder sydd ganddynt. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn hapus ac yn chwarae rhan lawn ym mywyd a gwaith yr ysgol.

Mae'r staff yn cydweithio'n fwriadus i gynllunio cwricwlwm ysgogol a difyr. Mae'r gweithgareddau dysgu yn effeithiol wrth ddatblygu ystod o fedrau'r disgyblion, gan gynnwys eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol. Er hyn, mae lleiafrif y disgyblion yn troi i'r Saesneg wrth weithio o fewn ardaloedd o fewn yr amgylchedd dysgu, er enghraifft wrth ddysgu yn yr ardal adeiladu. Yn gyffredinol, nid oes gan y disgyblion dealltwriaeth ddigon cadarn o ystyr geirfa Gymraeg wrth ddarllen a dehongli testunau amrywiol. Mae'r ardaloedd dysgu ddiddorol yn cynnig cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ddatblygu eu medrau creadigol a chorfforol yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn datblygu eu medrau cerddorol yn effeithiol wrth gyfansoddi caneuon yn yr ardd gerddoriaeth. Er hyn, nid yw athrawon yn darparu gweithgareddau sy'n herio'r disgyblion i gyflawni'n dda yn ddigon effeithiol bob tro.

Mae'r pennaeth a'r staff yn cael eu cefnogi'n frwd gan lywodraethwyr sy'n llwyr ymroddedig i lwyddiant yr ysgol. Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gweithio'n agos â staff er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth a'r safonau dysgu. Yn dilyn gweithgareddau monitro, maent yn rhannu gwybodaeth am eu canfyddiadau yn briodol, gan nodi cryfderau'r ysgol a'r hyn sydd angen ei wella. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn defnyddio canfyddiadau'r gweithgareddau monitro yn ddigon pwrpasol i arwain y camau nesaf yn natblygiad yr ysgol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1 Sicrhau bod arweinwyr yn defnyddio canfyddiadau gweithgareddau hunanwerthuso yn bwrpasol i arwain y camau nesaf yn natblygiad yr ysgol

A2 Darparu gweithgareddau sy'n cefnogi disgyblion i ymestyn eu medrau hyd eithaf eu gallu

A3 Parhau i wella medrau llafar a darllen Cymraeg disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sydd wedi ei seilio ar greu ysgol hapus a chroesawgar. Mae'n rhoi ffocws ar ddatblygu diwylliant ac ethos cynhwysol, sy'n canolbwyntio'n effeithiol ar wella profiadau lles a dysgu disgyblion. Rhennir y weledigaeth yn llwyddiannus gyda holl randdeiliaid yr ysgol. Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ohono'i hun a'r staff, ac maent yn cydweithio fel tîm clòs i wireddu nod yr ysgol i 'Dyfu fel Teulu'.

**Ciplun: Gwella cyfranogiad y dysgwyr ym mywyd a gwaith yr ysgol trwy weithgareddau hyrwyddo lles**

Mae ystod gynhwysfawr o weithgareddau hyrwyddo lles yn cael eu defnyddio gan y staff yn wythnosol, gan gynnwys sesiynau 'Llun Lles', ioga ac amseroedd egwyl 'sensori'. Mae gan y staff ddealltwriaeth gadarn o anghenion y disgyblion ac maent yn barod i wrando ac ymateb iddynt yn brydlon.

Yn ddiweddar, mae'r disgyblion wedi bod yn weithgar wrth greu'r 'Caban Clyd' ar iard chwarae'r ysgol, lle gall disgyblion fynd i ymdawelu. O ganlyniad i'w gwaith, mae'r holl ddisgyblion yn cael defnydd cyson o'r caban, pan fydd angen, sy'n cynnwys ystod dda o adnoddau synhwyraidd fel cerddoriaeth, goleuadau a gweithgareddau meddylgarwch.

Mae'r amryw ddulliau hybu lles disgyblion wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau'r disgyblion tuag at fywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, mae presenoldeb bron bob disgybl wedi gwella dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r disgyblion yn ymgymryd â'u gweithgareddau dysgu yn frwdfrydig, yn cydweithio'n hapus â'i gilydd o fewn yr amgylchedd dysgu ac wrth chwarae yn ystod amseroedd egwyl. Mae ymddygiad bron bob disgybl yn arbennig o dda.

Mae blaenoriaeth gadarn yn cael ei rhoi i ddatblygu awyrgylch ble dethlir yr iaith Gymraeg a Chymreictod ymhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn cael eu trochi yn yr iaith a'i thraddodiadau, er enghraifft drwy ymgymryd â nifer o weithgareddau difyr sy'n cynnwys gweithgareddau dawnsio gwerin a chystadlu mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol. Mae'r athrawon yn cydweithio'n fwriadus i gynllunio cwricwlwm ysgogol a difyr sy'n cwmpasu'r meysydd dysgu yn effeithiol. Mae'r sesiynau dysgu yn cynnwys amrywiaeth dda o weithgareddau addysgol pwrpasol sy'n effeithiol wrth ddatblygu ystod o fedrau'r disgyblion. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau corfforol yn gelfydd wrth ddefnyddio offer torri coed i greu delwedd bren o anifail. Mae'r disgyblion hynaf yn datblygu eu medrau llythrennedd a chreadigol yn dda, er enghraifft wrth greu drama a chyfansoddi cerddoriaeth i adrodd hanes yr ysgol yn ystod Oes Fictoria.

Mae medrau gwrando bron bob disgybl yn datblygu'n dda. Maent yn barod iawn i wrando ar gyfarwyddiadau oedolion a chyfraniadau ei gilydd, er enghraifft wrth drafod sut i wneud lloches ar gyfer anifeiliaid yn ardal y goedwig. Mae medrau llafar a chyfathrebu llawer o'r disgyblion yn datblygu'n effeithiol. Maent yn defnyddio ystod o eirfa addas wrth drin a thrafod eu syniadau. Er hyn, mae tueddiad i leiafrif o ddisgyblion droi i'r Saesneg wrth weithio o fewn eu grwpiau dysgu ac wrth gymdeithasu yn ystod amseroedd egwyl.

Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau darllen ac ysgrifennu, er enghraifft wrth i'r disgyblion hynaf ddarllen am draddodiadau Cymreig cyn ysgrifennu ffeil o ffeithiau. Fodd bynnag, nid oes gan leiafrif o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o ystyr geirfa gyfarwydd ac anghyfarwydd, yn enwedig yn y Gymraeg. Mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i ddeall a dehongli testun mewn llyfrau amrywiol. Nid ydynt yn gwneud defnydd digon effeithiol o adnoddau pwrpasol, er enghraifft geiriaduron a thesawrws i ddarganfod ystyr geiriau. Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd a digidol yn hyderus, er enghraifft wrth i'r disgyblion hynaf ddefnyddio eu gwybodaeth am y pedair rheol rif i gyfrifo'r gwahaniaeth maint rhwng meysydd pêl-droed y byd cyn cyflwyno'r wybodaeth mewn tablau a graffiau digidol.

Mae athrawon yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth o hanes, diwylliant a threftadaeth eu hardal leol yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn dysgu am enwogion Môn a'u dylanwad ar yr ynys. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fynd ar deithiau dysgu difyr, er enghraifft wrth ymweld â Thŵr Marcwis a chestyll yr ynys. Mae'r profiadau hyn yn effeithiol wrth ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o effaith y gorffennol ar eu bywydau heddiw.

Mae athrawon yn defnyddio ystod o dechnegau addysgu effeithiol wrth ennyn a chynnal diddordeb a chyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Maent yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion ddysgu mewn parau a grwpiau gan drafod a rhannu eu syniadau ar y cyd. Mae staff yn holi'r disgyblion yn fedrus er mwyn caffael eu syniadau a barn o fewn eu gweithgareddau dysgu. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol wrth ddatblygu medrau meddwl y disgyblion ac wrth iddynt ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r hyn maent yn ei ddysgu. Mae bron bob disgybl yn cydweithio'n effeithiol gan gwblhau eu tasgau yn synhwyrol ac aeddfed. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu gweithgareddau sy'n herio pob disgybl i gyflawni hyd eithaf eu gallu bob amser.

Mae athrawon yn darparu adborth pwrpasol effeithiol wrth arwain y disgyblion i wybod y camau nesaf yn eu dysgu. Mae'r adborth ysgrifenedig yn rhoi sylw ystyrlon i'r hyn mae'r disgyblion yn ei gyflawni'n dda ac yn cynnig syniadau ar sut gellir gwella'r gwaith ymhellach.

Mae'r amryw bwyllgorau llais y disgybl yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion rannu eu syniadau a dylanwadu ar agweddau pwysig o'r ddarpariaeth. Er enghraifft, mae aelodau'r cyngor ysgol wedi llunio holiadur i'r disgyblion er mwyn caffael eu barn am sut gellir gwella'r ddarpariaeth yn ystod amseroedd egwyl. Yn dilyn dadansoddi'r holiaduron, maent wedi mynd ati i archebu offer chwarae a gemau buarth newydd sy'n cael defnydd cyson gan yr holl ddisgyblion. O ganlyniad i'r

profiadau hyn, mae medrau arwain llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda ac maent yn hyderus bod staff yn gwrando ac yn gweithredu ar eu syniadau.

Darperir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fyfyrio ar werthoedd ysbrydol a moesol pwysig, gan gynnwys yr angen i barchu pawb mewn cymdeithas a bod yn ffrind da i eraill. Mae hyn yn effeithiol wrth sicrhau bod gan bron bob disgybl ddealltwriaeth gadarn o'r egwyddorion pwysig sydd eu hangen arnynt er mwyn bod yn ddinasyddion deallus a gwybodus.

Mae'r llywodraethwyr yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i fywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn cefnogi a chynnal lles y staff yn effeithiol ac yn gweithredu'n dda yn eu rôl wrth herio'r pennaeth ar safonau'r disgyblion a'r ddarpariaeth ar eu cyfer. Mae staff a'r llywodraethwyr yn cymryd rhan flaenllaw yn y broses hunanwerthuso, gan ymweld â sesiynau dysgu, craffu ar lyfrau a chynnal trafodaethau â disgyblion yn dymhorol. Mae'r broses hon yn briodol wrth sicrhau bod gan staff a llywodraethwyr ddealltwriaeth dda o brif gryfderau'r ddarpariaeth a'r agweddau sydd angen eu gwella. Er hyn, nid yw arweinwyr bob amser yn defnyddio canfyddiadau'r gweithgareddau monitro a gwerthuso yn ddigon pwrpasol i arwain y camau nesaf yn natblygiad yr ysgol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2025:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y **caiff** ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  09/01/2025